




Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru

Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol

Rhoi **rhan 5** o

Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
ar waith



Ymgynghoriad ar gyfer pobl ifanc

Mae gennym ni wasanaethau cymdeithasol da yng Nghymru ond mae Llywodraeth Cymru'n eu gwneud nhw'n well fyth.

Mae gwasanaethau cymdeithasol yn helpu teuluoedd ac unigolion pan mae angen help arnyn nhw.

Maen nhw hefyd yn helpu plant a phobl ifanc:

- pan maen nhw mewn perygl o gael eu niweidio
- pan mae ganddyn nhw broblemau teuluol
- pan mae ganddyn nhw anabledd
- pan maen nhw mewn helynt â'r gyfraith neu'r heddlu
- pan maen nhw'n derbyn gofal
- pan nad yw eu teuluoedd yn gofalu amdany'n nhw fel y dylen nhw wneud
- pan maen nhw'n gadael gofal ac yn cael eu cefnogi i ddod yn oedolion.

Ffordd newydd o wneud pethau

Yn 2014, fe wnaethom ni ddeddf newydd o'r enw **Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)**.

(Mae Deddf yn gwneud newidiadau i'r gyfraith.)

Mae'r Ddeddf newydd yma'n manylu ar bopeth y mae'n rhaid i awdurdodau lleol (cyngorau) eu gwneud i helpu pobl yn eu hardal nhw.

Mae yna 11 rhan i'r Ddeddf, yn rhoi sylw i bopeth y mae gwasanaethau cymdeithasol yn eu gwneud, ac mae'r llyfryn yma'n edrych ar ran 5.

I ddarllen y Ddeddf newydd gyfan
- [cliciwch yma](#):



Paratoi

Bydd pawb sy'n gweithio mewn gwasanaethau cymdeithasol yn newid eu ffordd o weithio a byddan nhw'n defnyddio'r Ddeddf newydd yma o fis Ebrill 2016 ymlaen.

Felly rydyn ni wrthi'n llunio fframwaith (camau) newydd fel bod pawb yn deall beth y mae'r Ddeddf newydd yn ei olygu a beth y mae angen iddyn nhw ei wneud.

Bydd y fframwaith newydd yn cynnwys:

- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) ei hun
- Rheolau (rheoliadau) newydd y mae modd eu gwneud oherwydd y Ddeddf
- Codau Ymarfer (canllawiau) i bawb sy'n gweithio mewn gwasanaethau cymdeithasol eu dilyn.

Mae'r llyfryn yma'n dweud wrthyh chi am y Cod Ymarfer a rhai o'r rheolau newydd rydyn ni wedi'u datblygu ar gyfer Rhan 5 y Ddeddf.

Rydyn ni wedi holi rhai pobl sy'n gweithio mewn gwasanaethau cymdeithasol, a rhai plant a phobl ifanc ynglŷn â'r rhain yn barod, ond nawr rydyn ni eisiau gwybod beth yw'ch barn chi.

Wedyn, byddwn ni'n anfon y codau a'r rheoliadau at Gynulliad Cenedlaethol Cymru iddyn nhw gytuno arnyn nhw mewn pryd i bawb ddechrau gweithio'n unol â nhw o fis Ebrill 2016 ymlaen.



Beth y mae Rhan 5 yn rhoi sylw iddo?

Mae Rhan 5 y Ddeddf yn edrych ar faterion gwasanaethau cymdeithasol nad ydyn nhw'n cael sylw yn y 10 rhan arall.

Mae'r rhain yn cynnwys rhoi'r gallu i awdurdodau lleol godi ffi ar bobl am y gofal a'r cymorth sy'n cael eu darparu, fel:

- gofal cartref
- gofal a chymorth yn y gymuned
- cartrefi gofal
- cymorth a gwasanaethau ataliol.

i Mae **gwasanaethau ataliol** yn camu i mewn yn gynnar i helpu pobl cyn i sefyllfaoedd waethygu.

Ni fydd awdurdodau lleol yn codi ffi ar bobl oni bai eu bod nhw'n siŵr bod rhywun yn gallu fforddio talu, ac ni allan nhw godi mwy nag y mae'r gofal a'r cymorth yn ei gostio.

Codi ffi ac asesiadau ariannol

Egluro faint y bydd yn rhaid i rywun ei dalu.

i Mae **asesiadau ariannol** yn gweithio allan faint o gyfoeth sydd gan berson ac yn dangos a yw'n gallu fforddio talu.

Bydd y cod ymarfer yn:

- manylu ar gamau newydd i awdurdodau lleol asesu a gwirio a yw pobl yn gallu fforddio talu am ofal a chymorth
- gosod y swm wythnosol uchaf y mae modd ei godi ar rywun am ofal a chymorth dibreswyl
- gwneud yn siŵr nad oes yn rhaid i unrhyw un dalu'r gost lawn am ofal preswyl os oes ganddyn nhw £24,000 neu lai
- gwneud yn siŵr nad yw'r gofal a'r cymorth y mae pobl yn gallu eu cael yn rhad ac ddim yn newid – er enghraifft mae pobl yn cael gofal a chymorth yn rhad ac am ddim am 6 wythnos ar ôl iddyn nhw fod yn aros mewn ysbyty
- gadael i awdurdodau lleol godi cyfraddau sydd wedi'u gosod yn isel am ofal a chefnogaeth a chymorth ataliol
- gwneud yn siŵr bod pawb sy'n gorfod talu'n cael datganiad sy'n manylu ar sut mae eu ffi wedi'i chyfrifo.



Taliadau wedi'u gohirio

Rhoi'r dewis i bobl oedi cyn gwerthu eu tŷ neu eu heiddo i dalu am gostau cartref gofal nes eu bod nhw'n barod.

Mae'r cod ymarfer yn:

- esbonio pwy allai orfod gwerthu eu tŷ i dalu am gostau eu cartref gofal
- ei gwneud hi'n bosibl i bobl sy'n mynd i mewn i gartref gofal gael eu hawdurdod lleol i dalu am gostau eu cartref gofal fel nad oes yn rhaid iddyn nhw werthu eu tŷ nes eu bod nhw'n barod
- manylu ar y rheolau y mae'n rhaid i awdurdodau lleol eu dilyn pan mae rhywun yn dewis gwneud hyn
- rhoi'r gallu i awdurdodau lleol godi llog ar lefel isel tra'u bod nhw'n talu costau nes mae eiddo'n cael ei werthu.

Adolygu Ffioedd

Gwneud yn siŵr bod y ffioedd yn gywir.

i Gall **adolygiad** fod er mwyn:

- cywiro camgymeriadau
- gwirio bod y ffioedd yn gywir
- dangos y byddai codi ffioedd yn achosi problemau ariannol i rywun.

Mae'r cod ymarfer yn ei gwneud hi'n bosibl i unrhyw un sy'n talu am ofal a chymorth ofyn am adolygiad a chael rhywun i ailedrych ar benderfyniadau.



Diolch yn fawr am ddarllen hwn.

A fydddech chi cystal ag ateb y cwestiynau
ac anfon eich atebion i:

sswbimplementation@cymru.gsi.gov.uk

neu:

Cangen Gweithredu Gwasanaethau
Cymdeithasol Cynaliadwy
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

erbyn 31 Gorffennaf, 2015

Cwestiynau:

Ydych chi'n meddwl bod y Cod Ymarfer a'r
rheolau newydd rydyn ni wedi'u datblygu ar gyfer
Rhan 5 y Ddeddf yn syniad da?

Ydw

Nac ydw

Ddim yn gwybod

Ydych chi'n meddwl ein bod ni wedi gadael rhywbeth
pwysig allan wrth wneud y cynlluniau yma?

Ydw

Nac ydw

Ddim yn gwybod

Sylw:

Sylw:

